Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE
## Adroddiad Monitro

17 Medi 2020



Y Senedd a BREXIT

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **lucy.valsamidis@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE
## Adroddiad Monitro

17 Medi 2020

**Awduron:**
Lucy Valsamidis a Sara Moran

Y Senedd a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ....... 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ....... 1

**2. Datblygiadau'r DU-UE ....... 3**

Trosolwg ....... 3

Y camau nesaf ....... 4

Cytundeb Ymadael a Bil Marchnad Fewnol y DU ....... 4

Negodiadau: mwy o fanylion ....... 7

**3. Datblygiadau yn y DU ....... 12**

Bil Marchnad Fewnol y DU ....... 12

Fframweithiau cyffredin a chysylltiadau rhynglywodraethol ....... 12

Parodrwydd ....... 13

Deddfwriaeth y DU ....... 14

Negodiadau rhyngwladol ....... 17

**4. Datblygiadau yng Nghymru ....... 19**

Negodiadau'r UE ....... 19

Negodiadau rhyngwladol ....... 19

Parodrwydd ....... 19

Gweithredu Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon ....... 21

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb a dadansoddiad o'r datblygiadau diweddaraf yn nhrafodaethau'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, ar lefel y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru ers 30 Mehefin.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Daeth yr wythfed cylch o **Negodiadau am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol** i ben ar 10 Medi gyda gwahaniaethau sylweddol o hyd. Cynhelir sesiwn arbenigol yn ystod wythnos 14 Medi ac mae'r nawfed cylch o drafodaethau wedi'i drefnu ar gyfer wythnos 28 Medi. Mae'r ddwy ochr yn parhau'n ymrwymedig i ddod i gytundeb erbyn canol mis Hydref, pan fydd cyfle i Gyngor yr UE ystyried testun terfynol yn ei gyfarfod ar 15-16 Hydref. Mae angen cytundeb erbyn 31 Hydref fan bellaf er mwyn caniatáu digon o amser i gwblhau gweithdrefnau cadarnhau'r UE a'r DU cyn iddo ddod i rym ar 1 Ionawr 2021.

Yn y cyfamser, mae anghydfod wedi codi rhwng y DU a'r UE ynghylch gweithredu'r Cytundeb Ymadael, yn dilyn cyflwyno Bil Marchnad Fewnol y DU. Mae'r Bil wedi cael ei feirniadu'n eang am alluogi'r DU i wyro oddi wrth ei rhwymedigaethau o dan Brotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon y Cytundeb Ymadael. Cafwyd beirniadaeth eang i gyfaddefiad Llywodraeth y DU fod hyn yn torri'r Cytundeb Ymadael, ac felly gyfraith ryngwladol, gan gynnwys beirniadaeth gan bum cyn Brif Weinidog y DU, yr UE a gwneuthurwyr deddfau yn yr Unol Daleithiau.

Ar **Lefel y DU**, pasiodd Bil y Farchnad Fewnol ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin. Dadl Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yw bod y Bil yn tanseilio'r setliadau datganoli ac maent wedi dweud nad ydynt yn disgwyl i'r Senedd na Senedd yr Alban roi eu cydsyniad. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei model gweithredu ar y ffin ar gyfer diwedd y cyfnod pontio a dechreuodd ymgyrch gyfathrebu, ond rhybuddiodd busnesau a grwpiau logisteg bod bylchau mewn parodrwydd. Cymeradwyodd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) y ddau fframwaith cyffredin cyntaf a pharhaodd deddfwriaeth Brexit i symud drwy Senedd y DU. Cytunodd y DU a Japan mewn egwyddor i gytundeb masnach rydd newydd.

Cyhoeddodd **Llywodraeth Cymru** 11 o lythyrau at Lywodraeth y DU yn nodi ei blaenoriaethau ar gyfer trafodaethau'r DU a'r UE. Cafodd y cytundeb ar y fargen rhwng y DU a Japan ei chroesawu gan y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol. Cafodd y cynnydd yn ymgsylltiad Llywodraeth y DU ar baratoi ar gyfer diwedd y

cyfnod pontio ei groesawu gan y Gweinidog Pontio Ewropeaidd, gan gadarnhau y byddai Gweinidogion o’r llywodraethau datganoledig unwaith eto’n cael eu gwahodd i bwyllgor Cabinet Llywodraeth y DU ar barodrwydd. Fodd bynnag, rhybuddiodd fod amser i baratoi eisoes wedi’i golli.

# 2. Datblygiadau'r DU-UE

## Trosolwg

Ar ôl i'r **wythfed cylch o negodiadau** ddod i ben ar 10 Medi yn Llundain, cadarnhaodd y ddau dîm negodi y byddai negodiadau pellach yn parhau er gwaethaf y gwahaniaethau sylweddol a oedd yn parhau a chyflwyno deddfwriaeth y DU a fyddai'n gorchfygu'r Cytundeb Ymadael (gweler adran 2.1).

O ran Cylch 8, **dywedodd Prif Negodydd yr UE, Michel Barnier,** nad oedd Llywodraeth y DU wedi cymryd rhan mewn modd cyfatebol ar egwyddorion allweddol a materion pwysig sydd o ddiddordeb i'r UE, megis dulliau datrys anghydfodau, mesurau diogelu hanfodol ar gyfer cydweithredu barnwrol a gorfodi'r gyfraith, pysgodfeydd, neu ofynion sefyllfa gydradd ym meysydd trafnidiaeth ac ynni. Roedd hefyd wedi methu â rhoi cadarnhad mewn meysydd fel cystadleuaeth deg a diffyg atchweliad o ran safonau cymdeithasol, amgylcheddol, llafur a hinsawdd.

Dywedodd Prif Negodydd y DU, **yr Arglwydd David Frost** bod sgyrsiau defnyddiol wedi digwydd a'u bod wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ym mhob maes. Ail-bwysleisiodd safbwynt Llywodraeth y DU fod ei chynigion yn briodol i gytundeb masnach rydd fodern rhwng dwy ochr sofran ac ymreolus sy'n gyfartal. Cadarnhaodd fod y DU yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio tuag at gytundeb erbyn canol mis Hydref.

Wrth ysgrifennu yn y ***Telegraph* ar 12 Medi**, nododd y Prif Weinidog ei farn am safbwynt yr UE yn y negodiadau. Tynnodd sylw at y posibilrwydd na fydd yr UE yn rhestru'r DU fel trydedd wlad, er mwyn caniatáu mewnforion bwyd i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr:

> We are now hearing that unless we agree to the EU's terms, the EU will use an extreme interpretation of the Northern Ireland protocol to impose a full-scale trade border down the Irish Sea.
>
> We are being told that the EU will not only impose tariffs on goods moving from Great Britain to Northern Ireland, but that they might actually stop the transport of food products from GB to NI.
>
> I have to say that we never seriously believed that the EU would be willing to use a treaty, negotiated in good faith, to blockade one part of the UK, to cut it off; or that they would actually threaten to destroy the economic and territorial integrity of the UK.

Cyfnewidodd y ddau negodydd farn ar y mater drwy Twitter y diwrnod canlynol.

**Dywedodd Michel Barnier** nad yw Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon yn fygythiad i integriti y DU ac ailadroddodd nad yw'r UE yn gwrthod rhestru'r DU fel trydedd wlad. **Dywedodd yr Arglwydd David Frost yn ddiweddarach** bod yr UE wedi'i gwneud yn glir nad oedd sicrwydd y byddai'r DU yn cael ei rhestru.

Ceir gwybodaeth gefndir fanwl am y negodiadau yn adran 3 isod.

## Y camau nesaf

Bydd **sesiwn arbenigol rhwng 14 a 21 Medi** yn cael ei chynnal ym Mrwsel. Mae **nawfed cylch negodi wedi'i drefnu rhwng 28 Medi a 2 Hydref,** hefyd ym Mrwsel.

Os bydd cytundeb i ddod i rym o 1 Ionawr 2021, bydd angen ei gwblhau erbyn **31 Hydref fan bellaf** er mwyn cael digon o amser i gwblhau prosesau cadarnhau'r DU a'r UE. Mae Prif Negodydd yr UE, Michel Barnier, wedi **dosbarthu cynllun drafft** sy'n dangos y gallai Cyngor yr UE ystyried y cytundeb terfynol yn ei gyfarfod ar 15-16 Hydref. Os bydd cytundeb, nid yw'n glir eto a fydd hynny ar ffurf cytundeb sengl neu gytundebau lluosog.

Gallwch ddarllen **Blog Llinell Amser Brexit** Gwasanaeth Ymchwil y Senedd i gael golwg fanwl ar weddill 2020 a'r gweithdrefnau cadarnhau ar gyfer cytundeb rhwng y DU a'r UE.

## Cytundeb Ymadael a Bil Marchnad Fewnol y DU

Cynhaliwyd cyfarfodydd **y pwyllgorau arbenigol** ar hawliau dinasyddion a phrotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon ar 6 Awst a 16 Gorffennaf yn y drefn honno.

Ar 9 Medi, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth ddomestig yn ymwneud â marchnad fewnol y DU, sef **Bil Marchnad Fewnol y DU** (gweler adran 3.1 isod). Mae'r Bil yn galluogi'r DU i wyro oddi wrth ei rhwymedigaethau o dan Brotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon y Cytundeb Ymadael.  Cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, esboniodd Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, Brandon Lewis, **i Dŷ'r Cyffredin:**

> [T]his does break international law in a very specific and limited way. We are taking the power to disapply the EU law concept of direct effect, required by article 4, in certain very tightly defined circumstances. There are clear precedents of this for the UK and, indeed, other countries needing to consider their international obligations as circumstances change. [Column 509]

Beirniadwyd y dull gan lawer, gan gynnwys **cyn Brif Weinidogion y DU, Theresa May, David Cameron, Syr John Major a Tony Blair.**

Fe'i beirniadwyd hefyd gan Lefarydd **Tŷ Cynrychiolwyr yr Unol Daleithiau, Nancy Pelosi,** a ddywedodd mewn datganiad na fyddai unrhyw obaith o gwbl y byddai cytundeb masnach rhwng y DU a'r Unol Daleithiau yn pasio'r Gyngres pe bai'r DU yn torri ei rhwymedigaethau i Ogledd Iwerddon ac Iwerddon.

## Ymateb Comisiwn yr UE

Dywedodd Llywydd Comisiwn yr UE, **Ursula Von Der Leyen, mewn neges drydar:**

> Very concerned about announcements from the British government on its intentions to breach the Withdrawal Agreement. This would break international law and undermines trust.

Galwodd yr UE gyfarfod brys o'r Cyd-bwyllgor ar 10 Medi. Yn dilyn y cyfarfod, **cyhoeddodd Comisiwn yr UE ddatganiad:**

> [I]f the Bill were to be adopted, it would constitute an extremely serious violation of the Withdrawal Agreement and of international law.
>
> If adopted as proposed, the draft bill would be in clear breach of substantive provisions of the Protocol: Article 5 (3) & (4) and Article 10 on custom legislation and State aid, including amongst other things, the direct effect of the Withdrawal Agreement (Article 4). In addition, the UK government would be in violation of the good faith obligation under the Withdrawal Agreement (Article 5) as the draft Bill jeopardises the attainment of the objectives of the Agreement.
>
> The EU does not accept the argument that the aim of the draft Bill is to protect the Good Friday (Belfast) Agreement. In fact, it is of the view that it does the opposite.

Dywedodd Is-Lywydd Šefčovič, Comisiwn yr UE:

> [B]y putting forward this Bill, the UK has seriously damaged trust between the EU and the UK. It is now up to the UK government to re-establish that trust.

Mae datganiad yr UE yn galw ar Lywodraeth y DU i dynnu'r mesurau hyn yn ôl o'r Bil drafft yn yr amser byrraf posibl a, beth bynnag, erbyn diwedd mis Medi. Cafodd Llywodraeth y DU ei hatgoffa gan Is-Lywydd Šefčovič Comisiwn yr UE na fyddai'r UE yn pryderu am ddefnyddio dulliau a datrysiadau cyfreithiol y Cytundeb Ymadael i fynd i'r afael ag achosion o dorri ei rhwymedigaethau cyfreithiol.

Cafodd cais yr UE ei wrthod gan **Michael Gove, Canghellor Dugiaeth Lancastr**

**.** Dywedodd na allai Llywodraeth y DU wneud hynny, ac na fyddai'n gwneud hynny a'i fod wedi pwysleisio, yn hytrach, bwysigrwydd hanfodol dod i gytundeb drwy'r Cyd-bwyllgor ar y cwestiynau pwysig hyn. Amddiffynnodd y Prif Weinidog y cynigion hefyd mewn **erthygl yn y *Telegraph*,** Dywedodd na ellid gadael y pŵer damcaniaethol i gerfio ein gwlad – i'w rhannu – yn nwylo sefydliad rhyngwladol.

## Ymateb Senedd Ewrop

Yn Senedd Ewrop, **yn ôl Politico,** galwodd uwch Aelodau Senedd Ewrop ar unwaith am oedi'r negodiadau, gan gynnwys Cadeirydd **Pwyllgor Masnach Ryngwladol Senedd Ewrop, Bernd Lange**, a'r A SE Markus Ferber, **a drydarodd** nad oes angen unrhyw negodiadau pellach. Dwedodd ASE o Wlad Belg **Philippe Lambert ASE**, sy'n Aelod o Grŵp Cydgysylltu'r DU yn Senedd Ewrop, fod perygl i'r DU ddod yn wladwriaeth ddrygionus.

Ar 11 Medi, cyhoeddodd arweinwyr pleidiau gwleidyddol y Senedd a Grŵp Cydgysylltu'r DU **ddatganiad ar y cyd**, yn rhybuddio:

> Should the UK authorities breach – or threaten to breach – the Withdrawal Agreement, through the United Kingdom Internal Market Bill in its current form or in any other way, the European Parliament will, under no circumstances, ratify any agreement between the EU and the UK.

Mae angen cydsyniad Senedd Ewrop ar gyfer cytundeb y DU-UE. O ran cydsyniad, dywedodd:

> For any deal to take effect, democratic oversight institutions on both sides of the Channel must be able to carry out a meaningful assessment, as stated in the Withdrawal Agreement. The European Parliament recalls that its consent to any deal will only be granted after detailed scrutiny of the legal provisions. The European Parliament will not accept having its democratic oversight curbed by a last-minute deal beyond the end of October.

## Barn Gyfreithiol y DU a'r UE

Mae barn gyfreithiol yr UE, **a ddatgelwyd yn answyddogol i'r *Guardian***, yn dod i'r casgliad bod Llywodraeth y DU eisoes wedi torri'r Cytundeb Ymadael drwy gyflwyno'r ddeddfwriaeth, p'un ai a gaiff ei phasio neu a ddefnyddir ei darpariaethau. Cafodd **barn gyfreithiol Llywodraeth y DU** ei chyhoeddi hefyd. Mae hon yn cyfeirio at sofran seneddol fel yr egwyddor sylfaenol y mae'r penderfyniad yn seiliedig arni:

> Parliament is sovereign as a matter of domestic law and can pass legislation which is in breach of the UK's Treaty obligations. Parliament would not be acting unconstitutionally in enacting such legislation.

## Negodiadau: mwy o fanylion

### Pwyntiau Allweddol: Y DU

Cytuno ar drefniadau masnachu tebyg i'r rhai rhwng yr UE a Chanada fyddai orau gan Lywodraeth y DU. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yn derbyn trefniadau masnachu **tebyg i Awstralia'**, sy'n gyfystyr â Brexit heb gytundeb. Cafodd trefniadau Awstralia eu disgrifio gan **y Prif Weinidog** fel canlyniad da i'r DU ar 7 Medi a dywedodd:

> Even at this late stage, if the EU are ready to rethink their current positions and agree this I will be delighted. But we cannot and will not compromise on the fundamentals of what it means to be an independent country to get it.

O ran dod i gytundeb erbyn cyfarfod nesaf Cyngor yr UE ar 15-16 Hydref, dywedodd:

> If we can't agree by then, then I do not see that there will be a free-trade agreement between us, and we should both accept that and move on.

Cyn negodi Cylch 7, roedd Prif Negodydd y DU, yr Arglwydd David Frost, wedi cynghori y byddai'n bosibl **dod i gytundeb erbyn mis Medi.** Fodd bynnag **mewn datganiad** yn dilyn Cylch 7, eglurodd mai ychydig o gynnydd a wnaed a disgrifiodd sut yr oedd meysydd o wahaniaethau allweddol yn parhau rhwng y DU a'r UE, o ran meysydd penodol ac o ran y dull o ymdrin â'r negodiadau. Dywedodd fod y ffaith bod yr UE yn mynnu dod i gytundeb ar gymorth gwladwriaethol a physgodfeydd cyn symud ymlaen i negodiadau mewn meysydd eraill yn ei gwneud yn fwy anodd nag oedd angen o ran gwneud cynnydd. Ers dechrau'r negodiadau, **mae'r UE wedi egluro** ei bwriad i wneud cynnydd cyfochrog ar draws pob maes.

Ar 4 Medi, dywedodd yr Arglwydd David Frost mewn neges drydar y gallai safbwynt yr UE gyfyngu ar y cynnydd y gellir ei wneud yn yr wythfed cylch. Y diwrnod canlynol, mewn cyfweliad â'r ***Mail on Sunday*** cyn Cylch 8, dywedodd:

> We are not going to be a client state. We are not going to compromise on the fundamentals of having control over our own laws. We are not going to accept level playing field provisions that lock us in to the way the EU do things; we are not going to accept provisions that give them control over our money or the way we can organise things here in the UK and that should not be controversial – that's what being an

> independent country is about, that's what the British people voted for and that's what will happen at the end of the year, come what may.

Aeth ymlaen i ddweud:

> If we can reach an agreement that regulates trade like Canada's, great. If we can't, it will be an Australian-like trading agreement and we are fully ready for that.

Yn ôl yr erthygl sy'n cyd-fynd â'r cyfweliad, mae'r Prif Weinidog wedi sefydlu 'Canolfan Pontio Rhif 10', sy'n cynnwys swyddogion sy'n paratoi i'r DU fasnachu heb drefniadau ar waith.

## Pwyntiau Allweddol: Yr UE

Yn dilyn negodiadau Cylch 7 ar 21 Awst, **dywedodd Prif negodydd yr UE, Michel Barnier**:

> [T]oo often this week, it felt as if we were going backwards more than forwards. Given the short time left, what I said in London in July remains true: Today, at this stage, an agreement between the UK and the European Union seems unlikely. I simply do not understand why we are wasting valuable time.

Ar 2 Medi, yn ystod ei Brif Anerchiad i'r **Sefydliad Materion Rhyngwladol ac Ewropeaidd,** eglurodd:

> We want a close partnership with the UK. Provided the conditions are right. This is in everybody's interest. And in Ireland's interest in particular. So far, the UK has not engaged constructively on those conditions.

Yn ystod yr anerchiad, cadarnhaodd Mr Barnier ei fod yn parhau i gredu bod y Prif Weinidog am gael cytundeb â'r UE a bod y Prif Weinidog wedi cadarnhau hyn yn ddiweddar i Taoiseach Iwerddon, Micheál Martin.

Fodd bynnag, dywedodd ei fod yn arbennig o bryderus – ac wedi ei siomi – oherwydd diffyg ymgysylltiad y DU ar dri phwynt' Ers dechrau'r trafodaethau, mae'r DU:

- wedi gwrthod ymgysylltu ar warantau credadwy ar gyfer cystadleuaeth agored a theg,
- wedi methu dangos unrhyw barodrwydd i geisio cyfaddawdau ar bysgodfeydd,
- wedi bod yn amharod iawn i gynnwys unrhyw ddulliau datrys anghydfod llorweddol ystyrlon yn ein cytundeb i'r dyfodol.

Ychwanegodd mai'r cyfan oedd y cais oedd trosi'r ymgysylltu gwleidyddol a wnaed yn y Datganiad Gwleidyddol yn destun cyfreithiol.

## Enghreifftiau sectoraidd

Esboniodd Mr Barnier fod negodwyr y DU, yn groes i honiad Llywodraeth y DU o fod yn awyddus i gael torri'n glir o'r UE, yn ceisio parhad mewn sawl maes ac, wrth wneud hynny, yn ceisio cadw manteision yr UE a'i Marchnad Sengl heb y rhwymedigaethau. Rhoddodd yr enghreifftiau sectoraidd canlynol:

Byddai cynigion Prydeinig o ran trafnidiaeth ffyrdd yn caniatáu i lorïau Prydain yrru ar ffyrdd yr UE heb orfod cydymffurfio â'r un amodau gwaith â gyrwyr yr UE.

Byddai cynigion y DU ar **drafnidiaeth awyr** yn caniatáu i gwmnïau awyrennau Prydeinig weithio o fewn yr UE heb orfod parchu'r un safonau llafur ac amgylcheddol.

O ran **ynni**, mae'r DU yn gofyn am hwyluso masnach drydan heb ymrwymo ei chynhyrchwyr i bris carbon cyfatebol a rheolaethau cymorth gwladwriaethol.

Yn y maes hwn, fel eraill: heb fframwaith cyffredin ar **gymorth gwladwriaethol**, byddai llywodraeth y DU yn rhydd i roi cymorthdaliadau yn ôl ei dymuniad. Nid yn unig i gefnogi'r economi werdd, ond hefyd y diwydiannau llygru. Nid yn unig i gefnogi diwydiannau'r dyfodol, ond hefyd y sectorau traddodiadol, megis dur a modurol – cyn eu hallforio heb dariff na chwota, i'n marchnadoedd.

Nodais gyda diddordeb araith ddiweddar gan Brif Weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd Lloegr, Syr James Bevan. Awgrymodd, y dylai **ansawdd dŵr,** ar ôl Brexit, ar gyfer afonydd, llynnoedd a thraethau Lloegr fod yn llai trwyadl nag o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE. Wrth gwrs, mae hyn yn codi pryderon mawr o ran yr amgylchedd ac iechyd. Ond gadewch inni ystyried yr economeg hefyd: Os nad yw ffermwyr a diwydiannau Lloegr bellach yn cael eu rhwymo gan safonau uchel ar lygredd dŵr – oni fyddent yn cael mantais gost bendant – ac annheg? Nid oes gennym unrhyw broblem gyda dargyfeirio rheoliadol. Mae'n arferol bod y DU am osod ei safonau a'i rheolau ei hun. Ond os yw'r rhain yn ystumio'r gystadleuaeth gyda ni, yna mae gennym broblem.

O ran y **sector bwyd**; Yma, nid yn unig y mae'r DU yn bwriadu mynd yn ôl o ran amddiffyniadau ar gyfer Dynodiadau Daearyddol a sicrhawyd yn y Cytundeb Ymadael. Nid yw chwaith wedi rhoi unrhyw sicrwydd inni ynghylch y drefn

lanweithdra a iechyd planhigion yn y dyfodol y bydd y DU yn eu cymhwyso ar ôl 1 Ionawr 2021. Sut y gallwn wneud cynnydd ar faterion glanweithdra ac iechyd planhigion pan nad oes gennym syniad sut y bydd system y DU yn esblygu?

## Meysydd ymwahanu

Mae'r meysydd canlynol yn parhau i fod yn feysydd o ymwahanu rhwng y DU a'r UE. Mae diweddariadau byr wedi'u cynnwys am bob maes:

### 1. Sefyllfa Gyfartal (LPF)

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sefyllfa gyfartal rhwng y DU a'r UE yn parhau i fod yn broblem, gyda **Phrif Negodydd yr UE, Michel Barnier,** yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn rhoi sylw i gymorth gwladwriaethol fel maes penodol o ymwahanu. Ar 2 Medi, dywedodd y *Financial Times* fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi **datganiad o fwriad cymorth gwladwriaethol** erbyn mis Hydref.

### 2. Pysgodfeydd

Soniodd The Times am alwadau gan y Prif Weinidog yn y negodiadau i **ddyblu'r cwota pysgota** ar gyfer llongau'r DU sy'n pysgota yn nyfroedd y DU. Y sôn yw bod negodwyr yr UE wedi gwrthod y cais, a fyddai'n arwain at golli un o bob tri llong yr UE yn ôl amcangyfrifon. Wrth siarad ar 2 Medi, dywedodd Prif Negodydd yr UE, Michel Barnier:

> Contrary to media reports this week, the UK government's position has not evolved in past months. No new legal texts have been tabled by UK negotiators.

A hefyd

> [W]e will not accept that the work and the livelihoods of these men and women be used as a bargaining chip in these negotiations. (...) Without a long-term, fair and sustainable solution on fisheries, there will simply be no new economic partnership with the UK.

### 3. Llywodraethu

Yn dilyn Cylch 5 y negodiadau, roedd **Prif Negodydd y DU, yr Arglwydd David Frost,** wedi dweud bod y DU yn barod i ystyried strwythurau symlach ar gyfer llywodraethu'r berthynas yn y dyfodol. Fodd bynnag, dyweodd **Michel Barnier, Prif Negodydd yr UE, ,** yn dilyn Cylch 7, fod y ddau ymhell o gytuno ar fecanwaith datrys anghydfodau.

Er bod y meysydd hyn o ymwahanu wedi parhau i chwarae rhan allweddol yn y negodiadau, mae'r **UE wedi egluro'n gyson** bod meysydd eraill o ymwahanu

yn parhau. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfynged i, gorfodi'r gyfraith, hawliau sylfaenol, symudedd a chydgysylltu nawdd cymdeithasol.

## Ymddiswyddiad Comisiynydd Masnach yr UE

Ar 26 Awst, cyhoeddodd Comisiynydd Masnach yr UE, Phil Hogan, ei **ddatganiad o ymddiswyddiad** yn dilyn ymweliad ag Iwerddon, lle y cafodd ei gyhuddo o dorri canllawiau iechyd cyhoeddus a rheolau cwarantin Covid-19 wrth gyrraedd y wlad. Mae **Mairead McGuinness ASE** ac **Andrew McDowell** (cyn Is-Lywydd Banc Buddsoddi Ewrop; cyn Gynghorydd Economaidd i Taoiseach Iwerddon) wedi cael eu henwebu gan Lywodraeth Iwerddon i gymryd lle'r Comisiynydd Hogan, yn unol â **pholisi cydbwysedd rhwng y rhywiau** Arlywydd Comisiwn yr UE, Ursula Von Der Leyen. Arweiniodd hyn at **gynnig gan y Llywydd** i newid cyfansoddiad rolau yn y Comisiwn, lle byddai Mairead McGuinness yn arwain ar wasanaethau ariannol yr UE, sefydlogrwydd ariannol a'r Undeb Marchnadoedd Cyfalaf.

Bydd yr **Is-Lywydd Gweithredol Valdis Dombrovskis** yn cymryd cyfrifoldeb am y portffolio masnach, ac yn parhau i fod yn gynrychiolydd y Comisiwn ar **yr Ewrogrŵp,** ynghyd â'r **Comisiynydd Paolo Gentiloni.** Corff anffurfiol o Weinidogion Aelod-wladwriaethau ardal yr ewro yw'r Ewrogrŵp.

# 3. Datblygiadau yn y DU

## Bil Marchnad Fewnol y DU

Cyflwynodd Llywodraeth y DU ei **Bil Marchnad Fewnol** i'r Senedd ar 9 Medi. Mae'n dweud fod angen y Bil i sicrhau y gall busnesau barhau i fasnachu'n rhydd ledled y DU fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Byddai'r Bil yn:

- sefydlu ymrwymiad newydd i gael mynediad i'r farchnad ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, fel y byddai unrhyw nwyddau neu wasanaethau a fyddai'n bodloni gofynion newydd i'w gwerthu mewn un rhan o'r DU yn gallu cael ei werthu'n awtomatig mewn rhan arall o'r DU;
- sefydlu darpariaeth ar gyfer cyd-gydnabod cymwysterau, fel bod gan unigolion (o fewn terfynau penodol) sydd wedi cymhwyso mewn un rhan o'r DU hawl awtomatig i ymarfer mewn rhan arall o'r DU;
- rhoi pwerau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd oruchwylio a monitro'r farchnad fewnol, drwy Swyddfa newydd ar gyfer y Farchnad Fewnol;
- rhoi pwerau i weinidogion y DU ddarparu cymorth ariannol ledled y DU mewn meysydd datganoledig;
- cadw rheoli cymhorthdal yn ôl (cymorth gwladwriaethol); a
- sefydlu darpariaeth i weinidogion y DU amrywio neu ddatgymhwyso rhai elfennau o Brotocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon, yn ymwneud â datganiadau ymadael ar gyfer nwyddau sy'n gadael Gogledd Iwerddon am Brydain Fawr ac i gymorth gwladwriaethol (gweler uchod, adran 2.3).

Rhoddodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd a'i weinidog cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban, Michael Russell, dystiolaeth ar y Bil i Bwyllgor Cysylltiadau'r Dyfodol Tŷ'r Cyffredin ar 15 Medi. **Dywedodd y Gweinidog** bod Llywodraeth y DU yn ceisio ysbaddu datganoli drwy'r Bil gan ddweud ei fod yn annerbyniol.

Cyn cyflwyno'r Bil, cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad pedair wythnos dros yr haf. **Mae Gwasanaeth Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi sesiwn friffio** yn crynhoi'r papur gwyn a'r ymatebion iddo.

## Fframweithiau cyffredin a chysylltiadau rhynglywodraethol

**Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** bod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) wedi cymeradwyo'r ddau fframwaith cyffredin cyntaf – Maeth a Sylweddau Peryglus – ar 3 Medi. **Ysgrifennodd y Gweinidog**

**hefyd at gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd** i gadarnhau bod gweinidogion wedi dechrau cyfres o gyfarfodydd ar gysylltiadau rhynglywodraethol a datrys anghydfodau ar 12 Awst.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 14 Gorffennaf, **dywedodd y Gweinidog** bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i dri fframwaith gael eu cymeradwyo gan Gyd-bwyllgor y Gweinidogion a dechrau ar y cyfnod craffu ffurfiol erbyn diwedd y flwyddyn. Byddai fframweithiau amlinellol yn gweithredu mewn meysydd fframwaith eraill ac yn destun craffu yn 2021. Lle na fydd cytundeb fframwaith amlinellol yn cael ei wneud, bydd fframwaith interim yn cael ei roi ar waith.

Wrth ymateb i bapur gwyn Marchnad Fewnol Llywodraeth y DU, **dywedodd Llywodraeth Cymru:**

> [W]hile we agree that every aspect of the Internal Market is not covered by current Frameworks, this is not a justification for a heavy-handed piece of legislation which goes much further than areas covered by retained EU law.

Galwodd ar Lywodraeth y DU i ailddechrau trafodaeth amlochrog ar farchnad fewnol y DU wedi'i hategu gan ymdrechion parhaus a chyd-ymdrechion i roi Fframweithiau Cyffredin ar waith.

## Parodrwydd

### Porthladdoedd a ffiniau

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **fodel gweithredu newydd ar gyfer ffiniau** ym mis Gorffennaf. Mae hyn yn amlinellu'r broses ar gyfer symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ôl y cyfnod pontio. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi **sicrhau bod £50m o gyllid ar gael i gyfryngwyr tollau** er mwyn cynyddu eu gallu i wneud datgeliadau.

Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar **ddiwygio cynlluniau Ymgyrch Brock ar gyfer lliniaru aflonyddwch** ym mhorthladd Dover ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Byddai'r rhain yn gymwys os byddai cytundeb ai peidio. Nid yw cynlluniau ar gyfer lliniaru aflonyddwch mewn porthladdoedd eraill wedi'u cyhoeddi. Mae adran 3.3 isod yn ystyried parodrwydd porthladdoedd yng Nghymru.

**Ysgrifennodd Is-bwyllgor Nwyddau UE Tŷ'r Arglwyddi** at Lywodraeth y DU i dynnu sylw at bwysigrwydd lleihau rhwystrau nad ydynt yn dariff. Nododd y

Pwyllgor nad oedd model gweithredu ffiniau'r DU yn cwmpasu ochr yr UE i'r ffin ac nad oedd y DU eto wedi datblygu digon o gapasiti yn y sector cyfryngu tollau. **Ysgrifennodd grwpiau logisteg hefyd** at Ganghellor Dugiaeth Lancastr i dynnu sylw at fylchau sylweddol mewn parodrwydd a **sicrhau trafodaeth bord gron.**

Ar 1 Medi, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU** y byddai'n parhau i gydnabod gweithdrefn marcio cynnyrch CE yr UE ar gyfer rhai nwyddau ym Mhrydain Fawr tan 1 Ionawr 2022, pan fydd gofynion yr UE a'r DU yn aros yr un fath. Bydd y DU hefyd yn cyflwyno gweithdrefn newydd 'UKCA' o farcio cynnyrch. Ni fydd hyn yn ddilys yng Ngogledd Iwerddon.

### Parodrwydd busnesau

**Lansiodd Llywodraeth y DU yr ymgyrch Check Change Go** er mwyn bod yn barod ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ym mis Gorffennaf. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi cyhoeddi **gohebiaeth parodrwydd** ar gyfer diwedd y cyfnod pontio a chadarnhaodd ei fod wrthi'n diweddaru hysbysiadau parodrwydd rhanddeiliaid.

Ar 30 Mehefin, **gofynnodd y Pwyllgor i Ysgrifennydd Gwladol Cymru** ynghylch gohebiaeth ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, gan ddyfynnu **data mewnol Llywodraeth y DU** o fis Hydref diwethaf nad oedd 61% o fusnesau wedi chwilio am wybodaeth am baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio os na fyddai cytundeb. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> I don't know what the latest set of figures says. However, I do think that the Government narrative around this is about getting a deal.

Mewn arolwg a gyhoeddwyd ar 13 Gorffennaf, **canfu Sefydliad y Cyfarwyddwyr** mai dim ond chwarter cyfarwyddwyr cwmniau a ddywedodd fod eu busnesau'n gwbl barod ar gyfer diwedd y cyfnod pontio a dywedodd bron hanner nad oeddent yn gallu paratoi ar hyn o bryd. Canfu **arolwg a gyhoeddwyd gan y CBI ar 31 Gorffennaf** bod paratoadau busnesau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio wedi arafu neu wedi mynd tuag yn ôl ers mis Ionawr.

## Deddfwriaeth y DU

### Y Bil Amaethyddiaeth

Cwblhaodd Tŷ'r Arglwyddi waith craffu ar y **Y Bil Amaethyddiaeth** yn ystod y cyfnod pwyllgor ar 28 Gorffennaf. Cafodd gwelliannau'r Llywodraeth eu gwneud er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad

gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o fewn cymhwysedd datganoledig (cymalau 32 a 36) a dileu'r pŵer yng nghymal 42(4) i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weinidogion datganoledig ddarparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Cafodd gwelliannau eu gwneud hefyd i alluogi pwerau a grëwyd gan y Bil i gael eu harfer yn syth ar ôl rhoi Cydsyniad Brenhinol. Digwyddodd y cam adrodd ar 15 Medi.

Mae **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd** a'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** wedi adrodd ar **femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol** Llywdraeth Cymru ym mis Gorffennaf. Roedd y memorandwm hwn yn adlewyrchu newidiadau cynharach i'r Bil. Gofynnodd y pwyllgorau am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y newidiadau i'r Bil.

## Y Bil Pysgodfeydd

Cwblhaodd **Y Bil Pysgodfeydd** ei gyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi a chael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 1 Medi. Dechreuodd y Bil **ar ei gyfnod pwyllgor** ar 8 Medi. Cafodd gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi, a wnaed i'r Bil i wella ymrwymiadau i gynaliadwyedd, eu dileu, gan droi'r Bil yn ôl i'w ffurf gwreiddiol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol** ar y Bil ar 8 Gorffennaf, gan adlewyrchu newidiadau a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 24 Medi.

## Y Bil Masnach

Cwblhaodd y **Bil Masnach** ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin. Cafodd ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Medi. Nid yw'r dyddiad ar gyfer y cyfnod pwllgor wedi'i gyhoeddi eto.

**Adroddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** ar **femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol** Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf. Cododd bryderon am ehangder y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil a dywedodd nad yw'n glir sut y mae'r Gweinidog wedi sicrhau bod buddiannau dinasyddion Cymru, busnesau Cymru a democratiaeth Cymru yn cael eu hystyried yn y Bil.

## Bil yr Amgylchedd

Disgwylir i Bwyllgor Biliau Ty'r Cyffredin gyflwyno adroddiad ar **Fil yr Amgylchedd** erbyn 29 Medi. Mae'r Bil **ar hyn o bryd yn ystod y cyfnod pwyllgor** ac nid oes dyddiad wedi'i gadarnhau ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cafodd y papur gwelliannau diweddaraf **ei gyhoeddi ar 28 Awst.**

Adroddodd **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd** a'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** ar femorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf. Cododd y pwyllgorau bryderon am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cwmpas y pwerau dirprwyedig a'r diffyg eglurder ynghylch pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil ar lywodraethu amgylcheddol. Ymatebodd **Llywodraeth Cymru** i'r **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** ar 22 Gorffennaf ac i'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** ar 28 Awst.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'r Bil yn ei olygu i Gymru, gallwch ddarllen **Briff diweddaraf Gwasanaeth Ymchwil y Senedd.**

## Y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol

Cwblhaodd **Y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiadau Meddygol** ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredon a chael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 2 Medi. Cafodd y Bill ei ddiwygio yn Nhŷ'r Cyffredin i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ar gyfer cronfa ddata o wybodaeth yn ymwneud â dyfeisiau meddygol (cymal 16). Yn wahanol i weddill y Bil, mae'r cymal newydd hwn yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **femorandwm cydsyniad deddfwriaethol** ar y Bil ar 8 Gorffennaf. Mae hwn yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i gymal 16, ond bod nifer o bryderon heb eu datrys. Y dyddiad cau i bwyllgorau gyflwyno adroddiad yw 22 Hydref.

## Biliau Eraill

Cwblhaodd **y Bil Cyfraith Ryngwladol Breifat (Gweithredu Cytundebau) ei gyfnodau** yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 29 Mehefin a symudodd i Dŷ'r Cyffredin. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf ar 30 Mehefin heb ddadl a chynhaliwyd ail ddarlleniad y Bil **ar 2 Medi**. Yn dilyn gwelliannau yn Nhŷ'r Arglwyddi, mae cwmpas y Bil wedi'i leihau fel ei fod yn gweithredu Confensiynau'r Hague 1996,

2005 a 2007 yn unig. Yn flaenorol, byddai Cymal 2 y Bil hefyd wedi sefydlu pŵer dirprwyedig newydd i weithredu cytundebau cyfraith ryngwladol breifat drwy is-ddeddfwriaeth. Cafodd cymal 2 ei ddileu yn ystod **cyfnodau'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi.** Fodd bynnag, **cadarnhaodd yr Arglwydd Ganghellor ei fwriad** i ailosod Cymal 2 ar 2 Medi yn ystod ail ddarlleniad.

Mae Tŷ'r Arglwyddi wedi bod yn ystyried y **Bil Cydgysylltu Mewnfudo a Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE)** yn ystod cyfnod pwyllgor ers 7 Medi. Cwblhaodd y **Bil Estraddodi (Arestio Dros Dro)** gyfnod pwyllgor ac adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Medi. Gwnaed gwelliannau gan y Llywodraeth i ddileu newidiadau a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi. Bydd y Bil nawr yn dechrau ar 'ping pong'.

## Negodiadau rhyngwladol

Parhaodd Llywodraeth y DU i geisio negodi cytundebau masnach rydd newydd a daeth i gytundeb mewn egwyddor ar gytundeb â Japan. Mae **Llywodraeth y DU hefyd wedi sefydlu Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth.** Bydd hwn yn rhoi cyngor ar bolisi masnach a'i oblygiadau i amaethyddiaeth, lles anifeiliaid a defnyddwyr. Bydd y Comisiwn yn weithredol am chwe mis ac yn cyflwyno adroddiad cynghori i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gyflwyno i'r Senedd. Nid yw'r llywodraethau datganoledig yn cael eu cynrychioli ar y Comisiwn.

**Cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Senedd flog** ar gynnydd trafodaethau masnach rydd a'r goblygiadau i economi Cymru ar 2 Medi.

### Japan

Daeth y DU a Japan i gytundeb mewn egwyddor ar gytundeb masnach rydd gyda Japan ar 11 Medi. Bydd hyn yn disodli cytundeb yr UE-Japan ar gyfer y DU ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mewn datganiad i'r wasg, **dywedodd Llywodraeth y DU** y byddai'r cytundeb yn mynd y tu hwnt i gytundeb yr UE-Japan mewn sawl maes, gan gynnwys dynodiadau daearyddol; digidol a data; torri hawliau eiddo deallusol ar-lein; a symudedd i weithwyr. **Mae adroddiadau'n awgrymu** y caiff testun y cytundeb ei gyhoeddi ym mis Hydref.

### Unol Daleithiau America

Cynhaliwyd trydydd cylch negodiadau'r DU a'r Unol Daleithiau ym mis Awst. **Dywedodd yr Adran Masnach Ryngwladol** bod cynnydd cadarnhaol wedi'i

wneud ac y byddai negodiadau'n parhau yn ystod yr hydref. **Adroddodd y Financial Times** ym mis Gorffennaf ei bod yn annhebygol y bydd cytundeb erbyn diwedd y flwyddyn.

## Awstralia a Seland Newydd

Cynhaliodd y DU y cylchoedd cyntaf o negodiadau gyda **Awstralia a Seland Newydd** ym mis Gorffennaf. Disgwylir i'r trafodaethau ailddechrau yn yr hydref.

# 4. Datblygiadau yng Nghymru

## Negodiadau'r UE

Ar 8 Medi, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 11 o lythyrau** i Ganghellor Dugiaeth Lancastr. Mae'r rhain yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith yn y negodiadau rhwng y DU a'r UE. Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd:

> I have received responses to some but not all of these letters, but the responses do not provide me with reassurance that the interests and priorities of Wales are being taken into account by the UK Government in its approach to the negotiations.

Rhoddodd prif negodydd y DU, yr Arglwydd David Frost, y wybodaeth ddiweddaraf i Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (trafodaethau'r UE) am y negodiadau ar 16 Gorffennaf a 3 Medi. Mewn datganiad ar ôl cyfarfod mis Medi, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ei fod wedi mynegi pryderon nad yw Llywodraeth y DU yn ymddangos fel pe bai'n benderfynol o sicrhau cytundeb sy'n diogelu swyddi a busnesau.

## Negodiadau rhyngwladol

Cafodd y ffaith bod y DU a Japan wedi cytuno ar gytundeb masnach rydd ei **chroesawu gan y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol** ar 11 Medi. Nododd pe na bai cytundeb o'r fath wedi'i wneud erbyn diwedd y cyfnod pontio, y byddai'r DU a Japan wedi dychwelyd i fasnachu ar delerau Sefydliad Masnach y Byd gyda tarifau uwch a rhwystrau nad ydynt yn dariff.

## Parodrwydd

Yn dilyn cyfarfod Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r DU) ar 3 Medi, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** bod cyfranogwyr yn cytuno:

> …there had been an improvement with the UK Government starting to share more detailed information about their assumptions and contingency plans

Dywedodd y byddai Gweinidogion datganoledig yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd Pwyllgor Cabinet y DU ar barodrwydd, fel yr oeddent wedi bod yn 2019. Byddai cyfarfodydd pedairochrog gyda'r Tâl-feistr Cyffredinol yn parhau. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn hen bryd cadarnhau'r trefniadau hyn a bod amser i baratoi'n gynharach yn y flwyddyn wedi'i golli.

## Porthladdoedd a ffiniau

Gofynnodd y Pwyllgor i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch paratoi porthladdoedd yng Nghymru ar 30 Mehefin. **Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:**

> The UK Gov consulted with ports across the UK, including Holyhead and Fishguard, to agree what infrastructure is required. This includes working with Welsh Gov, recognising devolved responsibilities with regard to ports, and from 1 Jan, autonomy introduced own approach—UK, this is—to goods from the UK.

O ran parodrwydd porthladdoedd, dywedodd:

> Can I guarantee that everything will slide seamlessly and painlessly into place according to the timetable? Na alla i ddim. [...] At this moment in time, we think the arrangements are about on schedule.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd am gynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer porthladdoedd a thollau ar 14 Gorffennaf. **Dywedodd y Gweinidog** bod Llywodraeth Cymru wedi gallu cyfrannu at gynlluniau drafft Llywodraeth y DU. Dywedodd ei bod yn debygol y byddai angen seilwaith newydd mewn porthladdoedd ar gyfer mis Gorffennaf 2021 a chadarnhaodd fod hyn bellach yn destun trafodaeth rhwng y llywodraethau, llywodraeth leol a phorthladdoedd.

## Parodrwydd busnesau

Ar 30 Mehefin, **gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Gwladol** ynghylch parodrwydd busnesau yng Nghymru. Dywedodd:

> [T]here is—I think I can safely say—daily liaison, daily discussion, daily debate about how we make sure that everybody is as prepared as possible and everybody knows exactly what that means and that all of the necessary stakeholders are fully familiar with the situation.

**Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ynghylch cyfathrebu â busnesau ar barodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ar 14 Gorffennaf. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod parodrwydd ymhlith busnesau tua 45%. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad o'r wefan **Paratoi Cymru** ac nad oedd Llywodraeth y DU wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw i Lywodraeth Cymru cyn lansio ei hymgyrch gyfathrebu.

## Gweithredu Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

**Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Gwladol** am ddadansoddiad Arsyllfa Polisi Masnach y DU o oblygiadau Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon i Gymru ar 30 Mehefin. Pan ofynnwyd am **ddadansoddiad Arsyllfa Polisi Masnach y DU ar gyfer Llywodraeth Cymru** y gallai'r Protocol greu cymhelliant ar gyfer nwyddau o drydydd gwledydd yn teithio i Iwerddon neu Ogledd Iwerddon osgoi Prydain Fawr a phorthladdoedd Cymru, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> That is not a question that has been raised by the individual ports.

**Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd wrth y Pwyllgor** ar 14 Gorffennaf y byddai'r pedair llywodraeth yn cwrdd mewn tasglu ar weithredu'r Protocol am y tro cyntaf yr wythnos honno.